**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
3 Mawrth 2026

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026 (‘y Rheoliadau’) yn diwygio Deddf Gofal 2014 (‘y Ddeddf Gofal’) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (‘Deddf 2016’), o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (‘Deddf 2025’).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gan fod y diwygiadau canlyniadol a wneir gan y Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae'r pwerau sydd i'w defnyddio i'w gwneud yn ddarostyngedig i broses gymeradwyo'r Senedd.

3.2 Os cânt eu pasio gan y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan adran 28 o Ddeddf 2025.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Ddeddf Gofal a Deddf 2016, o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2025.

4.2 Mae rheoliad 2 yn diwygio croesgyfeiriadau at ddarpariaethau penodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Gofal ac sydd wedi newid yn dilyn y diwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2025. Darpariaethau yw'r rhain sy'n ymwneud â “taliadau uniongyrchol” a wneir tuag at y gost o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth neu tuag at y gost o ddiwallu angen person am “after-care” o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

4.3 Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 47(d) o Ddeddf 2016 i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i adran 32 o'r Ddeddf honno gan adran 17(2) o Ddeddf 2025. Mae'r diwygiadau i adran 32 o Ddeddf 2016 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru – yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru, sy'n gweithredu ar eu rhan – i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu at ddibenion eu swyddogaethau rheoleiddiol. Mae adran 47 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn drosedd i berson wneud datganiad anwir wrth ddarparu gwybodaeth i'r rheoleiddiwr o dan nifer o amgylchiadau, a

diben y diwygiad i adran 47(d) yw diwygio'r croesgyfeiriad at y rhan berthnasol o adran 32.

## 5. Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, gan eu bod yn gwbl dechnegol eu natur ac nad ydynt yn newid y polisi, yn creu dyletswyddau newydd nac yn newid prosesau presennol. Ymgynghorwyd ar y cynigion deddfwriaethol ar gyfer Deddf 2025 yn 2022. Gan fod y Rheoliadau diwygio hyn yn gwneud mân newidiadau technegol yn unig ac nad ydynt yn newid y polisi nac yn cyflwyno unrhyw ofynion newydd, ystyriwyd nad oedd angen unrhyw ymgynghoriad pellach.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol wedi'i ystyried mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn sy'n dechnegol eu natur ac sy'n diweddaru croesgyfeiriadau o fewn deddfwriaeth yn unig.

6.2 Gan nad yw'r diwygiadau hyn yn newid y polisi, yn creu dyletswyddau newydd, nac yn newid prosesau presennol, nid oes unrhyw gostau na manteision amlwg yn deillio o'u gweithredu. Felly, nid ystyriwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn.